OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 302 (Cy.44)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud	- -	*13 Chwefror 2002*
Yn dod i rym	- -	*28 Chwefror 2003*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(2), 17(1), 26(1)(a) a (3), 31 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), sydd bellach yn arferadwy mewn perthynas â Chymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl iddo roi sylw, yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith fwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau ar faterion diogelwch bwyd(**3**) ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003, byddant yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 28 Chwefror 2003.

Diwygiadau i Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd 1998

2. Diwygir Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd 1998(**4**)) ("y prif Reoliadau"), i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn unol â rheoliadau 3 i 6.

3. Yn rheoliad 10 (tramgwyddau), yn union ar ôl paragraff (20), ychwanegir y paragraffau canlynol —

"(21) In any proceedings for an offence under these Regulations, it shall be a defence to prove that —

(a) the act constituting the offence was committed in relation to a plastic material or article which was manufactured or imported into the European Community

(**1**) 1990 p. 16.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r "Ysgrifennydd Gwladol" i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672, fel y'i diwygiwyd gan a.40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.
(**4**) O.S. 1998/1376, a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/1263 (Cy.70) ac O.S. 2002/2834 (Cy.272).

before 1st March 2004 and the matter constituting the offence would not have constituted an offence under these Regulations if the amendments made to them by the provisions specified in paragraph (22) had not been in force at the time that matter occurred; or

(b) the act constituting the offence was committed in relation to a plastic material or article which was manufactured or imported into the European Community before 1st March 2003, and the matter constituting the offence would not have constituted an offence under these Regulations if the amendments made to them by regulation 4(a)(i) and (b) (in so far as they relate to the monomer divinylbenzene) and 6 of the Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Amendment) (Wales) Regulations 2003 had not been in force at the time that matter occurred.

(22) The provisions referred to in paragraph (21)(a) of this regulation are the provisions of the Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Amendment) (Wales) Regulations 2003, except in so far as they relate to the monomer divinylbenzene.".

4. Yn Atodlen 1 (monomerau a awdurdodwyd heb derfyn amser, monomerau a awdurdodwyd hyd at ddiwedd 2001, monomerau a awdurdodwyd hyd at ddiwedd 1998 ac ategolion) —

(a) yn Adran A o Ran 1 —

(i) yn achos pob monomer a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn, mewnosodir Rhif yr eitem, y Rhif PM/REF, y Rhif CAS, yr enw a'r cyfyngiad neu'r fanyleb a bennir ar gyfer y monomer hwnnw yn y Rhan honno yn man Rhif ol priodol ar gyfer Rhif yr eitem honno,

(ii) yn achos pob monomer a enwir yn ail golofn Rhan II o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn, yn lle Rhif yr eitem ar gyfer y monomer hwnnw a bennir gyferbyn ag ef yn y golofn sy'n dwyn y pennawd "Item" rhoddir Rhif yr eitem ar ei gyfer a bennir yng ngholofn gyntaf (eitem) y Rhan honno,

(iii) yn achos y monomer Bis (4-isocyanatoseiclohecsyl) methan (eitem 43), yn lle'r cofnod ar gyfer y monomer hwnnw a bennir yng ngholofn 1 (Rhif /PM/REF) rhoddir y cofnod "13560", a

(iv) yn achos pob monomer a enwir yng ngholofn gyntaf Rhan III o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn, yn lle'r cofnod ar gyfer y monomer hwnnw a bennir gyferbyn ag ef yng ngholofn 4 (cyfyngiadau a manylebau) rhoddir y cofnod ar ei gyfer a bennir yn ail golofn (cyfyngiadau a manylebau) y Rhan honno;

(b) yn Adran B o Ran 1, dilëir yr holl gofnodion ar gyfer y monomerau a enwir yn Rhan IV o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn; ac

(c) yn Rhan II, ar ddiwedd paragraff 4 mewnosodir y darpariaethau canlynol —

"(22) SML(T) in this case means that the restriction shall not be exceeded by the sum of the migration levels of the substances having PM/REF/Nos. 13620, 36840, 40320 and 87040.

(23) SML(T) in this case means that the restriction shall not be exceeded by the sum of the migration levels of the substances having PM/REF/Nos. 13720 and 40580.

(24) SML(T) in this case means that the restriction shall not be exceeded by the sum of the migration levels of the substances having PM/REF/Nos. 16650 and 51570.

(25) QM(T) in this case means that the restriction shall not be exceeded by the sum of the residual quantities of the substances having PM/REF/Nos. 14950, 15700, 16240, 16570, 16600, 16630, 18640, 19110, 22332, 22420, 22570, 25210, 25240 and 25270.".

5. Yn Atodlen 2 (ychwanegion ac ategolion) —

(a) yn Rhan I —

(i) yn achos pob ychwanegyn a restrir yn Rhan I o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, mewnosodir Rhif yr eitem, y Rhif PM/REF, y Rhif CAS, yr enw a'r cyfyngiad neu'r fanyleb a bennir ar gyfer yr ychwanegyn hwnnw yn y Rhan honno yn y man Rhif ol priodol ar gyfer Rhif yr eitem honno,

(ii) yn achos yr ychwanegyn Bis (polyethylenglycol) ydrocsymethylffosffonad, mewnosodir yng ngholofn 2 (Rhif CAS) y cofnod "68951 — 50 — 8", a

(iii) yn achos yr ychwanegyn a enwir yng ngholofn gyntaf Rhan II o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, yn lle'r cofnod ar gyfer yr ychwanegyn a bennir gyferbyn ag ef yng ngholofn 4 (cyfyngiadau a manylebau) rhoddir y cofnod ar ei gyfer a bennir yn ail golofn (cyfyngiadau a manylebau) y Rhan honno; a

(b) yn Rhan II —

(i) yn achos pob ychwanegyn a restrir yn Rhan III o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, mewnosodir Rhif yr eitem, y Rhif PM/REF, y Rhif CAS, yr enw a'r cyfyngiad neu'r fanyleb a bennir ar gyfer yr ychwanegyn hwnnw yn y Rhan honno yn y man Rhif ol priodol ar gyfer Rhif yr eitem honno, a

(ii) yn achos pob ychwanegyn a enwir yng ngholofn gyntaf Rhan IV o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, yn lle'r cofnod ar gyfer yr ychwanegyn hwnnw a bennir gyferbyn ag ef yng ngholofn 4 (cyfyngiadau a manylebau) rhoddir y cofnod ar ei gyfer a bennir yn ail golofn (cyfyngiadau a manylebau) y Rhan honno; ac

(c) yn Rhan III —

(i) yn nodyn (11) o baragraff 4, ar ôl y ffigur "36800" mewnosodir y ffigur ", 36840", a

(ii) ar ddiwedd y paragraff hwnnw ychwanegir y darpariaethau canlynol —

"(22) SML(T) in this case means that the restriction shall not be exceeded by the sum of the migration levels of the substances having PM/REF/Nos. 13620, 36840, 40320 and 87040.

(23) SML(T) in this case means that the restriction shall not be exceeded by the sum of the migration levels of the substances having PM/REF/Nos. 13720 and 40580.

(24) SML(T) in this case means that the restriction shall not be exceeded by the sum of the migration levels of the substances having PM/REF/Nos. 16650 and 51570.".

6. Yn Atodlen 2B (manylebau) yn achos y sylwedd a bennir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn, mewnosodir Rhif yr eitem, y Rhif PM/REF, a'r fanyleb a nodir ar gyfer y sylwedd hwnnw yn yr Atodlen honno yn man Rhif ol priodol ar gyfer Rhif a llythyren yr eitem honno.

Diwygiad i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990

7. Yn Atodlen 1 i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990(**5**) (darpariaethau nad yw'r Rheoliadau hynny'n gymwys iddynt) diwygir y cyfeiriad yn yr ail golofn, gyferbyn â'r cofnod yn y golofn gyntaf ynglŷn â Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd 1998, mewn perthynas â Chymru i ddarllen "S.I. 1998/1376 as amended by S.I. 2001/1263 (Cy.70) S.I. 2002/2834 (Cy.272) and S.I. 2003/302 (Cy.44)".

(**5**) O.S. 1990/2463. Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1998/1376 ac O.S. 2002/2834 (Cy.272).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

Rhodri Morgan
13 Chwefror 2003 Prif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) 1998 p.38

ATODLEN 1 Rheoliad 4(a)(i), (ii) a (iv) a (b)

RHAN I

RHESTR O FONOMERAU I'W HYCHWANEGU AT ADRAN 1 O ATODLEN 1 I'R PRIF REOLIADAU

Item	*PM/REF No.*	*CAS No.*	*Name*	*Restrictions and specifications*
33B	13075	00091-76-9	Benzoguanamine	see "2,4-Diamino-6-Phenyl-1,3,5-Triazine"
47B	13620	10043--35-3	Boric acid	SML(T) — 6 mg/kg (22) (expressed as boron) without prejudice to the provisions of Directive 98/83/EC on water for human consumption(**7**).
49A	13720	00110-63-4	1,4-Butanediol	SML(T) = 0.05 mg/kg (23)
76A	15310	00091-76-9	2,4-Diamino-6-phenyl-1,3,5-triazine	QMA = 5 mg/6 dm^2
92A	16650	00127-63-9	Diphenyl sulphone	SML(T) = 3 mg/kg (24)
93A	16690	01321-74-0	Divinylbenzene	QMA = 0.01 mg/6 dm^2 of SML = ND (DL = 0.02 mg/kg, analytical tolerance included) for the sum of divinylbenzene and ethylvinylbenzene and in compliance with the specifications laid down in Schedule 2B.

(**7**) OJ Rhif L330, 5.12.1998, t.32.